

Sacubitril valsartan ar gyfer trin methiant cronig y galon symptomatig gyda ffracsiwn alldafliaid gostyngol

Ebrill 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir sacubitril valsartan (Entresto) fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl sydd â methiant cronig y galon os:

- bydd ganddynt symptomau cymedrol i ddifrifol iawn (dosbarth II i IV Cymdeithas y Galon Efrog Newydd)
- bydd ganddynt ffracsiwn alldafliaid y fentrigl chwith (faint o waed sy'n cael ei bwmpio o ochr chwith y galon) o 35% neu lai
- byddant eisoes yn cymryd dogn sefydlog o [atalyddion ACE](#) neu [ARB](#).

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych fethiant cronig y galon a bod eich meddyg yn credu mai sacubitril valsartan yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai sacubitril valsartan fod ar gael ar y GIG o fewn 30 diwrnod i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth dylech allu parhau i gymryd sacubitril valsartan nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd sacubitril valsartan oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae methiant y galon yn golygu na all eich calon bwmpio gwaed o amgylch y corff yn effeithlon, fel arfer oherwydd bod cyhyr y galon wedi cael niwed neu'n rhy wan i weithio'n iawn. Mae 'methiant cronig y galon' yn disgrifio methiant y galon fel cyflwr hirdymor.

Gall pobl sydd â methiant y galon deimlo'n fyr o anadl ac yn flinedig iawn, er gall nifer o bethau eraill achosi'r symptomau hyn. Mae triniaethau safonol ar gyfer methiant y galon yn cynnwys cyffuriau o'r enw atalyddion ensym trawsnewid angiotensin (neu ACE) ac atalyddion derbynnydd angiotensin II (neu ARB).

Mae sacubitril valsartan (Entresto) yn driniaeth unigol sy'n cyfuno ARB a chyffur a elwir yn atalydd neprilysin er mwyn helpu i drin methiant cronig y galon.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311
www.bhf.org.uk
- Pumping Marvellous, 0800 978 8133
pumpingmarvellous.org
- Heart UK, 0345 450 5988
heartuk.org.uk
- Blood Pressure UK, 0207 882 6218
www.bloodpressureuk.org/Home

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1891-1